

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2024

YN BRESENNOL: Aelodau Annibynnol

Dr T Rhys Davies
Mr Brace Griffiths
Mr John R Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen

Cynrychioli'r Cyngor Sir

Cynghorydd Margaret M Roberts

Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned

Cynghorydd Iorwerth Roberts

WRTH LAW:

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog
Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgorau (SC)

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas
Cynghorydd Margaret Thomas (Cynrychiolydd y Cynghorau Tref
a Chymuned)

1 CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Cafodd Mr John R Jones ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

3 ETHOL CADEIRYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y
Cyngor)/Swyddog Monitro ar y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd o'r Pwyllgor
Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 a Pharagraff
2.9.2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Cadeirydd o blith pum aelod annibynnol y Pwyllgor
Safonau am dymor heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd

neu tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben.

Roedd bywgraffiadau'r pum aelod annibynnol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn Atodiad 1 - 5.

PENDERFYNWYD ethol Dr Rhys Davies yn Gadeirydd o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol).

Bu i Mr John R Jones groesawu Dr Rhys Davies i'w rôl fel Cadeirydd a dymunodd yn dda iddo yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Diolchodd Dr Rhys Davies i Mr Jones am ei waith a'i arweiniad dros y pedair blynedd diwethaf yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, a diolchodd i'r Pwyllgor Safonau am eu cefnogaeth ac am ei ethol. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gael gweithio gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r swyddogion dros y pedair blynedd nesaf.

4 ETHOL IS-GADEIRYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.

Rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith pum aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau am dymor heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd neu tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben.

PENDERFYNWYD ethol Mr Trefor Owen yn Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ail-ethol).

**DR RHYS DAVIES
CADEIRYDD**